

# Amserlen

## Penderfyniadau

### Is-bwyllgor Trwyddedu

---



#### I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

#### Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin 2023

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 31 Mai 2023, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Allan Morris, Janet Cleverly

#### LIC PAN 02/23

#### Yr Ystyriaeth a'r penderfyniad ar gais amrywio gan Tiny Rebel Ltd o dan adran 34 Deddf Trwyddedu 2003

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn ofalus, sylwadau a wnaed gan Swyddogion lechyd yr Amgylchedd a'r sylwadau (ar lafar ac yn ysgrifenedig) a wnaed gan drigolion lleol yn ogystal â darpariaethau perthnasol Deddf Trwyddedu 2003, y canllawiau statudol ar gyfer hynny a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Roedd y Pwyllgor yn cydymdeimlo â safbwynt y trigolion lleol ac yn ymwybodol iawn o'r effaith bosibl arnynt pe baent yn rhoi'r Cais. Nododd y Pwyllgor hefyd diffyg cydymffurfiaeth yr ymgeisydd â'r cyngor a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ystod digwyddiad tebyg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022, er y cydnabuwyd bod 3 o'r 4 amcan trwyddedu yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol ganddynt ar y pryd ac roedd y digwyddiad i'w weld yn cael ei reoli'n dda, ac eithrio diffyg rheolaeth sŵn ddigonol.

Er gwaethaf yr uchod, nododd y Pwyllgor y gwaith a'r cynllunio sylweddol yr oedd Ymgeisydd wedi'i wneud, ar y cyd â swyddogion lechyd yr Amgylchedd, i liniaru unrhyw broblemau yn y dyfodol sy'n debygol o godi o ganlyniad i'r digwyddiad sydd wedi'i gynllunio. Nododd y Pwyllgor yr amodau rhybudd digwyddiad arfaethedig manwl yn Atodiad A ac roedd yn derbyn barn swyddogion lechyd yr Amgylchedd, y byddai'r sŵn, o gydymffurfio â'r amodau hynny, ar lefel briodol. Roedd hefyd yn amlwg bod yr Ymgeisydd yn gwbl ymwybodol o'r goblygiadau pe na bai'r amodau'n cael eu dilyn. Nodwyd bod pob Awdurdod Cyfrifol wedi tynnu eu gwrthwynebiadau i'r cais yn ôl, o ganlyniad i'r Ymgeisydd gytuno i amseroedd ac amodau diwygiedig.

Fodd bynnag, yn yr holl amgylchiadau, roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen newid yr amserlen weithredu er mwyn hyrwyddo ymhellach yr amcan trwyddedu atal niwsans cyhoeddus, sef, bod cerddoriaeth fyw ym mhob achos yn dod i ben erbyn 10pm a bod cerddoriaeth wedi'i recordio ym mhob achos yn dod i ben erbyn 10.30pm.

#### **PENDERFYNIAD:**

Caniateir i gais gyda gwelliant i'r amserlen weithredu fel bod cerddoriaeth fyw ym mhob achos yn dod i ben erbyn 10pm a bod cerddoriaeth wedi'i recordio ym mhob achos yn dod i ben erbyn 10.30pm ac mae'r amodau y cytunwyd arnynt gan Awdurdodau Cyfrifol a'r ymgeisydd wedi'u hatodi i drwydded y safle.